

Sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol?

Yr hyn rydym yn arolygu yn ei erbyn

Mae [Deddf Safonau Gofal 2000](#) yn rhoi'r pwerau a'r cyfrifoldebau i AGIC, ar ran Gweinidogion Cymru, gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion am y ffordd y mae AGIC yn cofrestru [gwasanaethau annibynnol](#) ar gael ar wefan AGIC.

Mae Gweinidogion Cymru wedi llunio [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#) o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (deddfwriaeth eilaidd) y mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol gydymffurfio â nhw.


Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Bwriad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau y gall cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat fod yn sicr y byddant yn cael gwasanaethau diogel o ansawdd da. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, waeth beth fo'u maint a'u math. Rydym yn defnyddio'r safonau hyn i lunio barn ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion ac i'n helpu i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ai peidio.

Rydym yn adrodd ar ganfyddiadau ein harolygiadau ac yn eu cyhoeddi o dan dair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**
Rydym yn siarad â chleifion a/neu eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a'u heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion



yn ganolog i'n dull arolygu.

- **Darparu gofal diogel ac effeithiol:**

Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**

Rydym yn ystyried y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn addas o ran darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Pwy rydym yn eu harolygu

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau annibynnol canlynol:

- Ysbytai annibynnol
- Clinigau annibynnol
- Asiantaethau meddygol annibynnol
- Gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio at ddibenion meddygol e.e. pelydr-X (gweler ein [gwefan](#) am ragor o fanylion).

Mae manylion pellach am y mathau o wasanaethau ym mhob un o'r categorïau hyn yn cael eu diffinio yn y Ddeddf Safonau Gofal ac ar ein [gwefan](#) hefyd.

Sut rydym yn arolygu

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n arolygiadau dirybudd.

Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld y gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Ni chaiff y gwasanaeth unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Fel arfer, arolygiadau dirybudd a gynhelir o ysbytai annibynnol (acíwt).

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd, sy'n golygu y gellir rhoi rhybudd o hyd at 12 wythnos cyn yr arolygiad drwy lythyr neu e-bost. Wrth benderfynu a ddylid cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, rydym yn ystyried:

- A fyddai arolygiad dirybudd yn tarfu ar gleifion a staff mewn ffordd annerbyniol
- A yw'n angenrheidiol casglu gwybodaeth gan y darparwr cyn yr arolygiad
- A oes angen i ni sicrhau bod aelodau penodol o staff allweddol yn bresennol ar ddiwrnod/diwrnodau'r arolygiad.

Am y rhesymau uchod, cynhelir arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd o rai ysbytai annibynnol llai o faint. Ond os bydd gennym bryderon am wasanaeth a diogelwch cleifion, neu am resymau eraill, gallwn ddewis cynnal arolygiad dirybudd ar unrhyw adeg.

Bydd ein tîm arolygu yn cynnwys o leiaf un arolygydd o AGIC ac, fel arfer, o leiaf un adolygydd cymheiriaid clinigol allanol, sy'n berson ag arbenigedd yn y gwasanaeth rydym yn ei arolygu. Bydd nifer aelodau'r tîm arolygu yn amrywio yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y gwasanaeth.

Fel arfer, mae ein harolygiadau yn para rhwng un a thri diwrnod, yn dibynnu ar y math o wasanaeth rydym yn ei arolygu.

Sut rydym yn penderfynu pryd a ble i arolygu

Ein nod yw arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol o leiaf unwaith bob tair blynedd a byddwn yn cynnal arolygiadau o leoliadau lle y caiff triniaethau mwy cymhleth eu cynnal yn fwy rheolaidd.

Wrth ystyried pryd a ble i arolygu, rydym yn ystyried yr holl dystiolaeth a gwybodaeth rydym wedi'u casglu am sefydliad dros amser. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth o arolygiadau neu adolygiadau blaenorol AGIC
- Pa mor agored i niwed mae'r grŵp cleifion neu pa mor gymhleth yw'r gwasanaeth.
- Data penodol sydd ar gael i AGIC
- Problemau a phryderon a rennir gan sefydliadau partner
- Pryderon a godwyd gan gleifion a staff (gweler ein [gwefan](#) am ragor o fanylion am godi pryderon)
- Blaenoriaethau cenedlaethol, safonau newydd neu ofynion ansawdd
- Mannau dall

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn penderfynu ble i ganolbwyntio ein gwaith ar ein [gwefan](#).

Yr hyn y byddwn yn ei ystyried yn ystod ein harolygiadau

Mae arolygiadau AGIC yn rhoi cipolwg ar safonau'r gofal y mae cleifion yn ei gael. Gallant hefyd nodi materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r broses o lywodraethu'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir.

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr holl Safonau Gofynnol Cenedlaethol rydym yn eu hystyried, beth rydym yn chwilio amdano yn ystod yr arolygiad a sut rydym yn gwneud hyn.

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
Ansawdd profiad y claf	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	- Bod cleifion yn cael eu cefnogi i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain - Bod gwasanaethau iechyd yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn helpu pobl i wneud dewisiadau iach - Bod gan wasanaethau iechyd ffyrdd o sgrinio am glefydau, eu canfod a'u hatal rhag lledaenu	- Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Arsylwadau - Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am gleifion - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
	10. Urddas a pharch	Bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch	- Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC - Arsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion - Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr
	9. Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion	- Bod cleifion yn cael gwybodaeth dda am eu gofal sy'n hawdd ei deall ac sy'n cael ei rhoi ar yr adeg gywir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud y dewis gorau iddyn nhw - Bod cleifion yn gallu trafod eu gofal a gwneud dewisiadau - Bod gwasanaethau iechyd yn ystyried yn ofalus y ffordd y mae cleifion yn cydsynio i'w gofal a'u triniaeth ac yn deall y canllawiau a'r cyfreithiau sy'n berthnasol	- Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am gleifion - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC
	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Bod gwasanaethau iechyd yn cyfathrebu â chleifion ac eraill: - Ar yr adeg gywir - Mewn ffordd y gall pobl ei deall yn hawdd	- Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
		- Gan ddiwallu'r holl anghenion iaith a chyfathrebu - Gan roi gwybodaeth glir am yr holl wasanaethau y maent yn eu darparu a chostau'r triniaethau	- Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC
	8. Cynllunio a darparu gofal	- Bod cleifion yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir gan y staff cywir - Bod cleifion yn cael eu cefnogi i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain - Bod gwasanaethau iechyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion cleifion	- Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Arsylwadau - Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	Bod gwasanaethau iechyd yn deall ac yn cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb	- Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion - Adolygu cofnodion hyfforddiant y staff - Arsylwadau - Trafodaethau a chyfweliadau â staff

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
	5. Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth	- Bod cleifion a'u teuluoedd yn gallu dweud wrth wasanaethau iechyd am eu profiadau o gael gofal - Bod gwasanaethau iechyd yn dysgu o'r hyn y mae cleifion a theuluoedd yn dweud wrthynt ac yn gwella gwasanaethau	- Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC - Adolygu systemau adborth gan gynnwys y polisi a'r gweithdrefnau cwyno - Arsylwadau - Gwybodaeth a ddelir gan AGIC - Cyfweliadau ag uwch-reolwyr

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12. Amgylchedd	Bod gwasanaethau iechyd yn sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd: • Yn hygyrch • Yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda • Yn addas at y diben • Yn ddiogel • Yn sicrhau preifatrwydd • Yn gynaliadwy	• Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC • Adolygu polisïau a gweithdrefnau • Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweliadau â staff
	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch a 4. Chynllunio ar gyfer Argyfyngau	• Bod gwasanaethau iechyd yn gofalu am iechyd a diogelwch pobl ac yn gwneud yn siŵr bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli cystal â phosibl	• Adolygu polisïau a gweithdrefnau • Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweliadau â staff • Cyfweliadau ag uwch-reolwyr
	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	• Bod gwasanaethau iechyd yn cynnwys pawb yn y broses o helpu i reoli ac atal heintiau er mwyn sicrhau na fydd pobl yn mynd yn sâl	• Adolygu dogfennaeth e.e. archwiliadau, asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau • Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweliadau â staff

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
	14. Maeth	- Bod cleifion yn cael eu cefnogi i fwyta ac yfed er mwyn iddynt allu gwella'n gynt - Bod cleifion yn cael bwyd a diod pan fydd eu hangen arnynt - Bod cleifion yn cael dewis o fwyd sy'n diwallu eu hanghenion, gan gynnwys eu hanghenion maethol, therapiwtig, diwylliannol a chrefyddol - Bod mamau a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth sy'n bwydo ar y fron eu cefnogi i wneud hyn	- Adolygu dogfennaeth e.e. prosesau archwilio a monitro - Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion - Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Arsylwadau - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC
	15. Rheoli meddyginiaethau	- Bod gwasanaethau iechyd yn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel gan y staff cywir - Bod cleifion yn cael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir - Bod cleifion yn cael cyngor a gwybodaeth am eu meddyginiaeth ac yn gallu gofyn cwestiynau a siarad am unrhyw	- Adolygu dogfennaeth e.e. archwiliadau a pholisi a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau - Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Trafodaethau â chleifion; teuluoedd; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr - Arsylwi ar y broses ar gyfer rhoi a

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
		bryderon sydd ganddynt	storio meddyginiaethau
	11. Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	- Bod gwasanaethau iechyd yn cefnogi ac yn diogelu pob plentyn ac unrhyw oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg - Bod gwasanaethau iechyd yn gwneud yn siŵr bod staff yn meddu ar y sgiliau diogelu cywir ac yn rhannu'r gwersi maent wedi'u dysgu	- Adolygu cofnodion hyfforddiant y staff - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau diogelu - Adolygu asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yng nghofnodion meddygol y cleifion lle y bo'n briodol
	17. Rheoli gwaed	- Bod cleifion yn cael cynhyrchion gwaed pan fo'u hangen arnynt - Bod gwasanaethau iechyd yn gwneud yn siŵr bod staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant cywir yn rhoi cynhyrchion gwaed yn ddiogel i'r cleifion	- Adolygu polisiau a gweithdrefnau - Cofnodion hyfforddiant y staff - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Cyfweliadau ag uwch-aelodau o staff.

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
	16. Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol	- Bod gwasanaethau iechyd yn gwneud yn siŵr bod yr holl gyfarpar y maent yn ei ddefnyddio yn ddiogel ac yn gweithio'n effeithiol - Bod gwasanaethau iechyd yn gwneud yn siŵr bod y cyfarpar yn addas at y diben ac ar gyfer yr amgylchedd lle caiff ei ddefnyddio - Bod gan wasanaethau iechyd staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel	- Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Cyfweliadau ag uwch-aelodau o staff. - Arsylwadau - Adolygu dogfennaeth e.e. gwasanaethu a gosod
	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	- Bod cleifion yn cael y gofal a'r triniaethau cywir ar gyfer eu hanghenion - Bod gwasanaethau iechyd yn ymwybodol o'r ffyrdd gorau o ofalu am gleifion a rhoi cymorth iddynt	- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Adolygu dogfennaeth e.e. archwiliadau, asesiadau risg, prosesau monitro - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron staff AGIC


Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd ac 21. Ymchwilio, Datblygu ac Arloesi	Bod gwasanaethau iechyd yn ystyried ffyrdd gwahanol o wella gwasanaethau yn seiliedig ar waith ymchwil da a rhannu'r gwersi a ddysgwyd	- Cyfweliadau ag uwch-reolwyr - Adolygu dogfennaeth e.e. archwiliadau, mentrau gwella ansawdd - Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron staff AGIC
	19. Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu	- Bod gan wasanaethau iechyd systemau gwybodaeth cywir i gefnogi gofal cleifion - Bod gwasanaethau iechyd yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth hon yn ddiogel ac yn cael ei rhannu'n ddiogel	- Cyfweliadau ag uwch-reolwyr - Adolygu dogfennaeth e.e. polisïau a gweithdrefnau - Trafodaethau a chyfweliadau â staff
	20. Rheoli cofnodion	- Bod gwasanaethau iechyd yn cadw cofnodion da i wneud yn siŵr bod cleifion yn cael y gofal cywir - Bod gwasanaethau iechyd yn dilyn y rheolau am sut i gofnodi gwybodaeth a'i chadw'n ddiogel	- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion - Trafodaethau a chyfweliadau â staff - Adolygu dogfennaeth e.e. archwiliadau

Thema arolygu AGIC	Pa Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Beth rydym yn chwilio amdano?	Sut rydym yn gwneud hyn?
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	1. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Bod gwasanaethau iechyd: • Yn gwneud y pethau iawn yn dda • Yn ymwybodol o ba mor dda maent yn perfformio • Yn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau • Yn unioni pethau'n gyflym pan fyddant yn mynd o chwith	• Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Adolygu dogfennaeth e.e. polisiâu a gweithdrefnau, archwiliadau, cynlluniau ar gyfer y dyfodol • Gwybodaeth a ddelir gan AGIC • Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron staff AGIC
	23. Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau	Bod gwasanaethau iechyd: • Yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn gyflym • Yn cefnogi cleifion a staff pan fo pryder yn effeithio arnynt • Yn bod yn agored a gonest â chleifion wrth ddweud wrthynt fod rhywbeth wedi mynd o chwith • Yn dysgu o bethau sydd wedi mynd o chwith a rhannu'r gwersi a ddysgwyd ag eraill	• Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Adolygu systemau adborth gan gynnwys y polisi a'r gweithdrefnau cwyno • Adolygu dogfennaeth e.e. Gwybodaeth a ddelir gan AGIC • Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron staff AGIC, polisiâu a gweithdrefnau, archwiliadau

	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol 24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	• Bod gan wasanaethau iechyd ddigon o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i roi'r gofal gorau i gleifion • Bod gwasanaethau iechyd yn cefnogi staff i feithrin y sgiliau cywir sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu swydd ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud eu gwaith yn dda	• Yr ymatebion a gafwyd i holiaduron staff AGIC • Trafodaethau a chyfweliadau â staff • Adolygu dogfennaeth e.e. rotas, cofnodion hyfforddiant staff, gweithdrefnau recriwtio • Arsylwadau
--	--	---	---

Beth sy'n digwydd ar ôl ein harolygiadau?

Mae'r diagram isod yn dangos y broses yn dilyn ein harolygiadau.



Byddwn yn ysgrifennu adroddiad arolygu

Ar ôl ein harolygiadau, byddwn yn ysgrifennu adroddiad arolygu, a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan. Cyn hyn, bydd gwasanaethau yn cael copi drafft o'r adroddiad arolygu er mwyn cadarnhau ei gywirdeb ffeithiol.

Byddwn yn gofyn i'r gwasanaethau wneud gwelliannau lle bo angen

Lle byddwn yn nodi meysydd i'w gwella, byddwn yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Byddwn yn rhoi adborth ar lafar i ddarparwr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad
- Efallai y byddwn yn gofyn i ddarparwr y gwasanaeth gyflwyno cynllun gwella sy'n disgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r

afael â chanfyddiadau'r arolygiad

- Byddwn yn codi unrhyw bryderon am ddiogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth y mae angen ymdrin â nhw ar unwaith â darparwr y gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad
- Lle byddwn wedi nodi pryderon sylweddol y mae angen ymdrin â nhw ar unwaith am ddiogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond nad ymdriniwyd â nhw'n briodol cyn diwedd ein harolygiad, byddwn yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio y mae angen ymateb iddo ar unwaith i ddarparwr y gwasanaeth. Mae cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a all arwain at achos sifil neu droseddol
- Mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau brys eraill hefyd, gan gynnwys:
 - Gosod (amrywio neu ddileu) amodau ar unwaith neu atal gwasanaeth ar unwaith.
 - Gwneud cais i ganslo cofrestriad ar frys
- Efallai y byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr y gwasanaeth ddod i gyfarfod wyneb yn wyneb i drafod ein pryderon

Mae rhagor o fanylion am ein [proses gorfodi a diffyg cydymffurfio](#) ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn disgwyl bod gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau llywodraethu da ar waith i fonitro'r gofal a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu'n barhaus er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn unol â'r disgwyliadau cyfreithiol.

Byddwn yn penderfynu a oes angen i ni gymryd camau pellach

Yn dilyn arolygiad ac ar ôl cael unrhyw gynllun gwella, byddwn yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod arolygiad. Mae'n bosibl y byddwn yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Gofyn am ddiweddariad gan y gwasanaeth ar hynt y cynllun gwella
- Cynnal arolygiad â phwyslais penodol i wirio neu profi a gafodd camau gweithredu penodol eu cwblhau
- Cynnal arolygiad llawn arall na chaiff ei gyfyngu i'r materion a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol
- Gofyn i asiantaethau eraill ystyried ymgymryd â gweithgareddau dilynol ar y cyd ag AGIC neu ar eu pen eu hunain
- Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cymryd camau gorfodi, yn unol â'n proses gorfodi a diffyg cydymffurfio.

Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw bryderon (e.e. gan gleifion a staff) a gwybodaeth (e.e. digwyddiadau a chanfyddiadau o arolygiadau) y byddwn yn eu cael am wasanaethau gofal iechyd yn barhaus er mwyn penderfynu pa gamau gweithredu y mae angen i AGIC eu cymryd. Ceir rhagor o fanylion ar ein [gwefan](#).